# Y Cyfnod Sylfaen: Amser Cofrestru

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Prynhawn da, blant. |
| Plant | Prynhawn da, Miss. Bore da, ffrindiau. |
| Oedolyn | Wayne? |
| Wayne | Yma. |
| Oedolyn | Osian? Ydy Osian yn absennol? |
| Plant | Nac ydy. |
| Oedolyn | Ble mae Osian? |
| Osian | Dyma fi! |

**Sgwrs 2 (fersiwn y de)**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser cofrestru. Dewch i eistedd ar y mat. Bore da, blant. |
| Plant | Bore da, Miss. Bore da, ffrindiau. |
| Oedolyn | Pwy sy'n cael cinio heddiw? Dwylo lan. Nawr, cyfrwch 'da fi. |
| Jac | Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith. |
| Oedolyn | Saith. Mae saith yn cael cinio heddiw. Faint sy'n cael brechdanau. Dwylo lan. Cyfrwch 'da fi eto. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Oedolyn | Pump. Da iawn. Mae pump yn cael brechdanau heddiw. |

**Pen-blwydd hapus**

Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i Catrin,
Pen-blwydd hapus i ti.

**Sgwrs 2 (fersiwn y gogledd)**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser cofrestru. Dewch i eistedd ar y mat. Bore da, blant. |
| Plant | Bore da, Miss. Bore da, ffrindiau. |
| Oedolyn | Pwy sy'n cael cinio heddiw? Dwylo i fyny. Rŵan, cyfrwch efo fi. |
| Jac | Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith. |
| Oedolyn | Saith. Mae saith yn cael cinio heddiw. Faint sy'n cael brechdanau? Dwylo i fyny. Cyfrwch efo fi eto. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Oedolyn | Pump. Da iawn. Mae pump yn cael brechdanau heddiw. |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser cofrestru. Eisteddwch mewn cylch ar y mat. Ydy pawb yn barod? |
| Plant | Yn barod. |
| Oedolyn | Gwyn? |
| Gwyn | Yma, Miss. |
| Oedolyn | Ann? |
| Ann | Yma, Miss. |
| Oedolyn | Abi? |
| Plant | Absennol, Miss. |
| Oedolyn | Ydy Abi'n sâl? |
| Plant | Ydy, Miss. |
| Oedolyn | Dyna drueni. Ewan? |
| Ewan | Yma, Miss. |
| Oedolyn | Pwy sy'n cael pen-blwydd heddiw? |
| Plant | Ewan. |
| Oedolyn | Ie, Ewan. Faint ydy dy oed di Ewan? |
| Ewan | Pedair. |
| Oedolyn | Rhaid canu pen-blwydd hapus i Ewan. Pawb yn barod? |
| Pawb | Pen-blwydd hapus i ti, Pen-blwydd hapus i ti, Pen-blwydd hapus i Ewan, Pen-blwydd hapus i ti. |

**Bore da, ffrindiau**
(Tôn: Skip to my Loo)

Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Rydyn ni'n dda iawn, diolch.

**Dewch i eistedd ar y mat –**
**(Tôn: London Bridge is falling down)**

Dewch i eistedd ar y mat,
Ar y mat, ar y mat,
Dewch i eistedd ar y mat
I ddweud 'Bore da.'

Dewch i eistedd ar y mat,
Ar y mat, ar y mat,
Dewch i eistedd ar y mat
I ddweud 'Prynhawn da.'

CCC

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Amser Cofrestru



### Geirfa — Vocabulary

| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| absennol | *absent* |
| brechdanau | *sandwiches* |
| cinio | *dinner* |
| cyfrif | *to count* |
| ffrindiau | *friends* |
| pen-blwydd | *birthday* |
| yma | *here* |
| yn barod | *ready* |
| yn dost / yn sâl | *ill* |

| Gorchmynion | *Commands* |
|---|---|
| Atebwch | *Answer* |
| Cyfrwch | *Count* |
| Dewch | *Come* |
| Eisteddwch | *Sit* |

| | |
|---|---|
| Dwylo i fyny (NW) | *Hands up* |
| Dwylo lan (SW) | *Hands up* |
| Dyna drueni. | *That's a pity.* |
| Faint ydy oed...? | *How old is ...?* |

| Oed | *Age* |
|---|---|
| tair oed | *three (years old)* |
| pedair oed | *four (years old)* |
| pump oed | *five (years old)* |
| chwech oed | *six (years old)* |
| saith oed | *seven (years old)* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Dewch i eistedd ar y mat. | *Come and sit on the mat.* |
| Eisteddwch ar y mat. | *Sit on the mat.* |
| Eisteddwch mewn cylch. | *Sit in a circle.* |
| Pawb yn barod? | *Everyone ready?* |
| Bore da, blant. | *Good morning children.* |
| Bore da, ffrindiau. | *Good morning friends.* |

| Iaith cofrestru | *Registration language* |
|---|---|
| Ble mae Cadi?<br>Dyma fi. | *Where is Cadi?*<br>*Here I am.* |
| Ble mae Hannah?<br>Mae Hannah'n absennol.<br>Ydy Hannah'n dost / sâl? Ydy / Nac ydy | *Where is Hannah?*<br>*Hannah is absent.*<br>*Is Hannah ill? Yes / No* |
| Ydy Ben yma? Ydy / Nac ydy<br>Ydy Macs yn absennol? Ydy / Nac ydy | *Is Ben here? Yes / No*<br>*Is Macs absent? Yes / No* |
| Pwy sy'n cael cinio?<br>Pwy sy'n cael brechdanau? | *Who's having dinner?*<br>*Who's having sandwiches?* |
| Faint sy'n cael cinio?<br>Cyfrwch gyda fi / efo fi.<br>Un, dau, tri ... Mae deg yn cael cinio. | *How many are having dinner?*<br>*Count with me.*<br>*One, two, three... Ten are having dinner.* |
| Wyt ti'n cael cinio heddiw Mair?<br>Ydw / Nac ydw | *Are you having dinner today Mair?*<br>*Yes / No* |
| Pwy sy'n cael pen-blwydd heddiw? Fi. | *Who's having a birthday today? Me.* |
| Rhaid canu 'Pen-blwydd hapus'. | *(We) must sing 'Pen-blwydd hapus'.* |
| Faint ydy dy oed di heddiw?<br>Dw i'n chwech oed heddiw. | *How old are you today?*<br>*I'm six (years old) today.* |